**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

13 Tachwedd 2023

Annwyl Julie,

Cydweithio â Llywodraeth y DU ar wahardd rhai arferion cyffredinol o ran gosodiadau preswyl

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Hydref 2023. Rydym yn croesawu'n fawr eich ymdrechion i dynnu ein sylw at y cydweithio hwn a'ch bwriad i ddarparu rhagor o wybodaeth maes o law.

Fel rhan o'r wybodaeth bellach hon, byddai'n arbennig o ddefnyddiol cael y canlynol gennych:

- cadarnhad eich bod yn bwrw ymlaen â Bil Cymru a Lloegr (fel y nodir yn Natganiad Ysgrifenedig y Cwnsler Cyffredinol ar Raglen Ddeddfwriaethol y DU) ac, os felly, pam y defnyddir y dull hwn o ystyried y ffaith bod fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer rhentu cartrefi yng Nghymru wedi cael ei greu yn ddiweddar, ac o ystyried hefyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, yn ogystal â deddfwriaeth hygyrch yn fwy cyffredinol;
- amseriad unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig a'ch cynlluniau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Llywydd ac at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd